TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dosbarth Meistr Ffotograffiaeth Colodion PlÃ¢t Gwlyb

Yn gryno

Yn 1851, darganfu Frederick Scott Archer y broses Colodion Plât Gwlyb, oedd yn cynhyrchu'r negyddion gwydr cyntaf ac ailgynhyrchu delweddau drwy brintiau albwmen. Mae'r dosbarth meistr undydd hwn ar golodion plât gwlyb yn rhoi cyfle i chi ddysgu am y broses hanesyddol hon.

Gan ddefnyddio ystafell dywyll stiwdio, byddwch yn cael creu delweddau unigryw gan ddefnyddio arian a golau i gynhyrchu tinteipiau (colodion gwlyb ar alwminiwm). Bydd eich delwedd yn ymddangos ar haen o alwminiwm wedi ei anoddeiddio i greu delwedd hardd un tro.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... Unigolion Creadigol

... Y rhai gyda diddordeb brwd mewn ffotograffiaeth

... Unrhyw un sydd â diddordeb mewn ffotograffiaeth proses amgen

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Byddwch yn dysgu'r broses hardd hon gan ddefnyddio offer camera ystafell dywyll plât gwlyb yn ein stiwdio. Byddwch yn dysgu sut i baratoi cemeg a'i ddefnyddio ar y plât gwlyb.

Ceir cyflwyniad i systemau camera fformat mawr a sut i ddefnyddio stiwdio ffotograffiaeth, ac yna byddwch yn creu darluniau plât gwlyb o'r naill a'r llall, gan orffen gyda thiwtorial ar farnisio a sganio platiau gorffenedig.

Gofynion Mynediad

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Angen dillad sy'n addas i'w defnyddio mewn ystafell dywyll, ond cofiwch y bydd angen tynnu lluniau ohonoch chi.